Campaign for Better Transport

CANLLAW I YMGYRCHWYR AR:

Achub Eich Gwasanaeth Bysiau

Campaign for Better Transport

Canllaw i Ymgyrchwyr ar Achub Eich Gwasanaeth Bysiau

Canllaw yw hwn i bobl yng Nghymru sydd eisiau ymgyrchu i achub eu gwasanaeth bysiau ond nad ydyn nhw'n gwybod lle i gychwyn. Bydd yn rhoi trosolwg ichi ar bwy sy'n penderfynu ynglŷn â thoriadau i wasanaethau bysiau ac ar sut i ymgyrchu'n effeithiol.

Fe ddylai eich helpu chi i ddeall y cyd-destun ar gyfer toriadau i gyllid ar gyfer bysiau, y bobl sy'n penderfynu a'r ffyrdd i ymgyrchu yn erbyn toriadau i wasanaethau.

Pam mae cyllid ar gyfer bysiau'n cael ei dorri?

Mae trafnidiaeth yn un o'r meysydd sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Llywodraeth San Steffan sy'n penderfynu ar gyfanswm yr arian sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gweinidogion yn Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu sut i wario'r arian, er enghraifft, faint sy'n cael ei wario ar ariannu bysiau.

Mae pob agwedd ar ariannu cyhoeddus yn anodd ar hyn o bryd, ond rydym ni o'r farn bod bysiau yn adnodd hanfodol y mae angen ei gynnal er iechyd a lles unigolion, cymunedau, yr economi a'r amgylchedd.

Beth sy'n digwydd i gyllid ar gyfer bysiau?

Hyd at fis Ebrill 2013, roedd awdurdodau lleol yn derbyn arian oddi wrth Lywodraeth Cymru i gymorthdalu llwybrau bysiau nad ydyn nhw'n fasnachol hyfyw, ond a ystyrir yn gymdeithasol angenrheidiol; Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol (LTSG) oedd yr enw ar hwn. Cwtogwyd 20% ar hwn ym mis Hydref 2012, ar gyfer chwe mis olaf y flwyddyn ariannol honno.

Hefyd, hyd at fis Ebrill 2013, roedd cwmnïau bysiau'n derbyn Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (BSOG, neu'r ad-daliad treth tanwydd i roi'r hen enw arno). Cwtogwyd 20% ar BSOG ym mis Hydref 2012, ar gyfer chwe mis olaf y flwyddyn ariannol honno.

O fis Ebrill 2013, mae un grant sengl, sef y Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTSG), wedi disodli'r ddwy ffrwd ariannu hyn, a thelir hwn i'r pedwar Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol sydd hefyd yn ei weinyddu. Bydd hwn tua 25% yn llai na'r LTSG a'r BSOG gyda'i gilydd ar gyfer 2011-12. Nawr, mae'n rhaid i weithredwyr ac awdurdodau lleol wneud rhai penderfyniadau anodd.

Hefyd, mae'r swm sy'n cael ei ad-dalu i weithredwyr bysiau ar gyfer deiliaid tocynnau bws rhatach wedi newid, gan fod y fformiwla a ddefnyddir wedi newid, sy'n golygu bod gweithredwyr bysiau'n colli arian ychwanegol, sy'n debygol o roi mwy o wasanaethau yn y fantol.

Ar ben hyn, mae pobl sydd dros chwe deg oed a phawb sydd ag anableddau yng Nghymru, a'u gofalwyr, yn derbyn tocynnau bws rhatach yn rhad ac am ddim.

Sut bydd hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr bysiau yng Nghymru?

Nid ydym ni'n gwybod eto beth fydd union effeithiau toriadau, ond rydym ni eisoes wedi gweld toriadau mewn gwasanaethau masnachol ac wedi gweld prisiau'n codi yn sgil datganiad cychwynnol y Gweinidog ar ddechrau 2012 er, yn y pen draw, y gohiriwyd y toriadau penodol hynny tan fis Hydref 2012. Gwelwyd newidiadau pellach i wasanaethau masnachol ers y toriadau ym mis Hydref 2012. Fodd bynnag, o fis Ebrill 2013 mae awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau wedi cael o leiaf 25% yn llai o gyllid nag yn 2011-12 ac rydym ni'n ofni y bydd yr effeithiau'n sylweddol.

Yr hyn y mae angen ichi ei wybod

Mae'r adran hon yn edrych ar bwy sy'n gyfrifol am wasanaethau bysiau ac ar y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau masnachol a'r gwasanaethau hynny y mae awdurdodau lleol yn eu darparu.

Pwy sy'n rhedeg bysiau yng Nghymru?

Mae yna amrywiaeth o gyrff sydd a wnelo â rhedeg gwasanaethau bysiau yng Nghymru.

1. **Cwmnïau Bysiau:** mae tua 70% o'r milltiroedd bysiau sy'n cael eu teithio yng Nghymru ar wasanaethau sy'n cael eu rhedeg yn fasnachol. Ar y mwyafrif o lwybrau masnachol, y cwmnïau bysiau sy'n penderfynu pa wasanaethau i'w rhedeg a lle i'w rhedeg, a'r prisiau y dylid eu codi amdanyn nhw. Mae'n debygol bod gwasanaethau o'r fath mewn ardaloedd ac ar lwybrau lle mae yna ddigon o deithwyr i gwmni wneud elw. Y cyfan y mae'n rhaid i gwmnïau bysiau ei wneud yw cofrestru â'r Comisiynydd Traffig a rhoi gwybod i'r awdurdod lleol 56 diwrnod cyn dechrau'r gwasanaeth newydd neu ddiwygiedig. Mae mwyafrif y cwmnïau bysiau yng Nghymru dan berchnogaeth breifat, ond mae yna ddau eithriad: Bws Caerdydd, sydd dan berchnogaeth lwyr Cyngor Caerdydd a Thrafnidiaeth Casnewydd, sy'n rhedeg Bws Casnewydd, sydd dan berchnogaeth lwyr Cyngor Casnewydd.

2. **Awdurdodau Lleol:** mae rhan helaeth o'r 30% sy'n weddill o filltiroedd bysiau sy'n cael eu teithio ar wasanaethau y mae cwmnïau bysiau'n eu rhedeg ond y mae awdurdodau lleol yn eu cymorthdalu, gan benderfynu pa wasanaethau y dylid eu darparu fel hyn. Mae cyfran y gwasanaethau cymorthdaledig yn amrywio o amgylch y wlad, â mwy o alw am wasanaethau cymorthdaledig mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol, gan ei bod hi'n llai tebygol y bydd gwasanaethau'n fasnachol hyfyw. Felly, os yw awdurdod lleol o'r farn bod angen trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardal gall benderfynu talu cwmni bysiau i redeg gwasanaeth. Mewn achosion o'r fath, mae gofyn i gwmnïau bysiau gyflwyno cynnig i redeg gwasanaeth (proses o'r enw tendro). Weithiau, gall gwasanaeth fod yn rhannol fasnachol ac yn rhannol gymorthdaledig, er enghraifft, pan mae awdurdod yn gweld bod angen ychwanegu at amserlen, i gael bws hwyr, er enghraifft. Awdurdodau lleol sydd hefyd yn gyfrifol am y seilwaith bysiau, fel llochesi bysiau a lonydd bysiau.

3. **Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol:** mae yna bellach bedwar Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol yng Nghymru ac, o 1af Ebrill 2013, maen nhw'n gyfrifol am weinyddu'r Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd. Dyma'r pedwar consortiwm trafnidiaeth: Taith yng Ngogledd Cymru, TraCC yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, Sewta yn Ne-ddwyrain Cymru a SWWITCH yn Ne-orllewin Cymru. Gallwch chi weld pa ardal rydych chi ynddi a manylion am sut i gysylltu â swyddogion yno ar-lein (dilynwch y dolenni o http://www.wlga.gov.uk/trafnidiaeth2), neu ffoniwch eich cyngor lleol a fydd yn gallu dweud wrthych chi. Mae'n ymddangos y bydd y cyngor lleol yn dal i fod yn gyfrifol am yr un materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth: adeiladu a chynnal a chadw priffyrdd, cynnal a chadw pontydd a strwythurau, diogelwch ffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus, trafnidiaeth egnïol (cerdded a beicio), trafnidiaeth gymunedol, cynllunio trafnidiaeth, rheoli traffig, rheoli tagfeydd a chydlynu gwaith y cwmnïau cyfleustodau ac ati, ond y bydd y consortia yn gyfrifol am waith polisi a gweinyddu cyllid i'r awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau.

4. **Llywodraeth Cymru:** sy'n goruchwylio polisi trafnidiaeth yng Nghymru ac yn penderfynu faint o gyllid y bydd y consortia trafnidiaeth rhanbarthol yn ei dderbyn i gefnogi gwasanaethau bysiau, ac sydd hefyd yn gosod y canllawiau ar gyfer y tocynnau bws rhatach yng Nghymru. Mae cyllid ar gyfer y tocynnau rhatach yn helpu i gymorthdalu llwybrau, gan fod gweithredwyr bysiau'n cael ad-daliad am gyfran o gost pob siwrnai y mae deiliad tocyn rhatach yn ei theithio. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhan-ariannu llwybrau bysiau pellter hir TrawsCymru a phrosiect bysiau Bwcabus, sy'n rhedeg yn unol â'r galw, yng Nghaerfyrddin a De Ceredigion.

5. **Llywodraeth y DU:** mae Llywodraeth Cymru'n derbyn ei chyllideb oddi wrth lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru'n gwario rhywfaint o'r gyllideb hon yn uniongyrchol, ond mae'n dyrannu cyfran sylweddol i gyrff cyhoeddus y mae'n eu noddi a'u hariannu, er enghraifft awdurdodau lleol a'r GIG yng Nghymru.

I ymgyrchu'n effeithiol, fe fydd angen ichi ddarganfod yn gyntaf pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am drafnidiaeth gyhoeddus yn eich ardal chi, a ph'un a yw'r llwybr rydych chi eisiau ei ddiogelu'n llwybr masnachol neu'n llwybr cymorthdaledig. Gallwch chi ofyn i'ch awdurdod lleol sut mae'ch llwybr chi'n cael ei ariannu. Mae'n debygol mai un o'r cynghorau unedol yw'ch awdurdod lleol (naill ai cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn hytrach na chyngor cymuned neu dref). Mae'r manylion cyswllt i'w gweld ar-lein (er enghraifft yn https://www.gov.uk/find-your-local-council) neu yn eich llyfr ffôn lleol.

Llwybrau masnachol

Os yw'r llwybr rydych chi eisiau ei ddiogelu'n cael ei redeg yn fasnachol, y peth cyntaf i'w wneud yw gofyn i'r cwmni pam ei fod yn tynnu'r gwasanaeth yn ôl neu'n ei newid. Mae'n wir bod cwmnïau bysiau'n cael newid llwybr neu amserlen gwasanaeth masnachol mor aml ag y mynnan nhw, cyn belled â'u bod nhw'n hysbysu'r Comisiynydd Traffig 56 diwrnod ymlaen llaw ac yn darparu copi o'r hysbysiad hwn i'r awdurdod trafnidiaeth lleol. Nid oes angen i gwmnïau bysiau gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau i lwybrau sy'n gwbl fasnachol. Mae'n debygol y byddan nhw'n newid gwasanaethau oherwydd nad ydyn nhw mwyach yn gwneud digon o arian, a gall hyn fod oherwydd toriadau i gyllid sy'n effeithio ar y cwmnïau bysiau neu oherwydd niferoedd teithwyr isel, er enghraifft. Mae'n bosibl na fyddan nhw'n rhoi rheswm ichi am y newidiadau. Efallai y gallwch chi berswadio'r cwmni bysiau i newid eu meddwl trwy redeg ymgyrch 'ei ddefnyddio neu ei golli'. Os nad yw hyn yn llwyddiannus, byddai angen ichi fynd at eich awdurdod lleol a'u perswadio, â niferoedd a hanesion achosion byr, efallai, i ddangos pam eich bod chi'n meddwl y dylen nhw gymorthdalu'r gwasanaeth.

Y camau i'w cymryd i achub eich gwasanaeth bysiau lleol

Mae'r adran hon yn edrych ar sut i gynllunio'ch ymgyrch, ategu'ch ymgyrch ag ymchwil, meithrin cynghreiriau, cyfleu'ch neges a dylanwadu ar y rheiny sy'n penderfynu.

Y cam cyntaf i'w gymryd yw cysylltu â phobl eraill sy'n defnyddio'ch gwasanaeth: mae'n bosibl bod yna grŵp ymgyrchu lleol yn barod, neu efallai yr hoffech chi ddechrau'ch un chi eich hun. Siaradwch â phobl eraill sy'n teithio gyda chi ar y bws, a chwiliwch y rhyngrwyd; efallai fod yna grŵp yn bodoli nad ydych chi'n gwybod amdano ac, os nad oes, mae'n bur debyg y byddwch chi'n dod o hyd i eraill sydd hefyd yn teimlo'n gryf ynglŷn â'r gwasanaeth.

Cynllunio'ch ymgyrch

Mae cynllunio'n bwysig, ond mae'r amseru'n bwysig hefyd, felly peidiwch â gwastraffu cyfle i ddweud eich dweud trwy gymryd gormod o amser i gyfleu'ch neges. Bydd pethau'n newid byth a hefyd, a byddwch chi'n fwyaf effeithiol os gallwch chi fod yn ymatebol ac yn adeiladol.

Bydd cynllun yn eich helpu chi i ganolbwyntio a dylech chi nodi'r canlynol ar y cychwyn:

1. Nod ac amcanion cyffredinol eich ymgyrch: efallai mai achub eich llwybr bysiau yw'ch nod, ac efallai mai casglu hanesion achosion a thystiolaeth o'r rheiny y mae'r llwybr yn bwysig iddyn nhw, a pham, yw un o'ch amcanion.

2. Eich cynghreiriaid posibl; y bobl y byddech chi'n hoffi iddyn nhw gefnogi'ch ymgyrch: o bosibl, unigolion allweddol, grwpiau cymunedol, sefydliadau, busnesau, cynghorwyr, unrhyw rai y gallai colli'ch gwasanaeth effeithio arnyn nhw, neu rai sy'n cynrychioli pobl y gallai effeithio arnyn nhw.

3. Pwy yw'r rhai sy'n penderfynu – er enghraifft, pwy mewn cwmni bysiau neu ba gynghorydd neu swyddog mewn awdurdod lleol sydd â'r grym i wneud gwahaniaeth.

4. Y negeseuon allweddol a allai berswadio eraill i gefnogi'r ymgyrch: cadwch nhw'n fyr ac yn blwmp ac yn blaen; dywedwch wrthyn nhw beth rydych chi'n gofyn amdano a pham.

5. Sut byddwch chi'n dweud wrth eraill am eich ymgyrch: ar lafar gwlad, taflenni, safleoedd rhyngrwyd, y wasg leol, stondin yn y stryd, cyfarfodydd cyhoeddus.

6. Cyfleoedd i ddylanwadu ar y rheiny sy'n penderfynu: er enghraifft, ymarferion ymgynghori, cymorthfeydd ACau, cyfarfodydd y cyngor.

7. Ffrâm amser i weithio oddi mewn iddi: pryd rydych chi'n bwriadu gwneud eich gweithgareddau a therfynau amser.

Llwybrau cymorthdaledig

Os yw'ch awdurdod lleol yn cymorthdalu'r llwybr, y peth cyntaf i'w wneud yw gofyn i'ch awdurdod lleol pam eu bod nhw'n ei dynnu'n ôl. Cyn tynnu cyllid yn ôl o wasanaeth cymorthdaledig, fe ddylai'ch awdurdod lleol redeg ymgynghoriad cyhoeddus a chwblhau asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb. Dylid ymgynghori ymhell cyn penderfynu, gan ofyn cwestiynau priodol, a gwrando ar y canlyniadau (gwelwch y pecyn cymorth arfer da gan Passenger Focus yn yr adran Adnoddau Pellach ar sut i ymgynghori'n dda). Dylai asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb edrych ar y ffordd y gallai'r newidiadau arfaethedig effeithio ar wahanol grwpiau yn y gymdeithas: pobl ifanc, yr henoed, pobl ag anableddau, menywod a phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Os nad yw awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldebau, fe allai'r penderfyniad fod yn anghyfreithlon (gwelwch ein hadran yn nes ymlaen ar ddylanwadu ar y rheiny sy'n penderfynu).

Pwysigrwydd ymchwil

O'n profiad ni â grwpiau sydd eisoes wedi wynebu toriadau i wasanaethau bysiau yn Lloegr, rydym ni'n ymwybodol ei bod hi'n hynod bwysig casglu gwybodaeth. Fe allech chi wneud arolwg o'ch llwybr bysiau, gan ddangos nifer a mathau'r bobl y bydd yn effeithio arnyn nhw, lle y mae angen iddyn nhw fynd, a beth sydd angen iddyn nhw ei wneud. Mae'n ddefnyddiol darganfod sut mae hyn yn effeithio ar bobl go iawn, er enghraifft: yn defnyddio'r bws i deithio i'r gwaith, i ofal iechyd, i siopau ac ati h.y. dweud mwy na dim ond sut maen nhw'n teimlo'n gyffredinol am doriadau. Mae'n bur debyg y bydd y math hwn o wybodaeth fanwl a thrylwyr yn golygu y byddwch chi'n gwybod mwy na'r rheiny sy'n penderfynu, gyda thystiolaeth ddi-ddadl yn hytrach na thybiaethau. Fe allech chi hefyd ymchwilio rhywfaint i wasanaethau eraill yn eich ardal, fel eich bod chi'n gwybod am bob un o'r opsiynau trafnidiaeth yn lleol.

Mae'n bwysig sicrhau bod tystiolaeth ategol yn fanwl gywir ac yn dod o ffynhonnell ddibynadwy. Ers Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2005, mae unrhyw aelod o'r cyhoedd yn cael gwneud cais i unrhyw gorff sy'n cael ei ariannu â chyllid cyhoeddus yn y DU. Fodd bynnag, dylid bod yn bwyllog wrth wneud hyn, gan fod yn rhaid talu am bob cais a dylech chi sicrhau nad yw'r wybodaeth eisoes ar gael yn gyhoeddus a'i bod hi'n angenrheidiol i ategu'ch dadl.

Cofiwch fod y cyllid cyffredinol oddi wrth Lywodraeth y DU wedi'i dorri, felly mae'r cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol trwy'r consortia trafnidiaeth rhanbarthol wedi'i dorri hefyd; mae pawb yn teimlo'u bod nhw'n cael eu gwasgu'n ariannol. Ceisiwch weld a allwch chi awgrymu ffyrdd y gellid arbed arian mewn ffyrdd llai niweidiol. Ceisiwch gynnig atebion creadigol, fel awgrymu bod eich awdurdod lleol yn dod o hyd i ffyrdd i integreiddio trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol â gwasanaethau bysiau rheolaidd, neu'n cael llwybrau bysiau i gynnwys ardaloedd penodol, fel canolfannau siopa neu ysbytai, sy'n debygol o arwain at gynnydd yn niferoedd y teithwyr. Os yw llwybrau bysiau am oroesi, mae angen i bobl deithio arnyn nhw; ceisiwch hysbysebu'ch llwybr chi ar lafar gwlad, mewn taflenni, mewn posteri ac ar Facebook. Ceisiwch weld a allwch chi gael eich cwmni bysiau lleol i hybu eu gwasanaeth yn ehangach; wedi'r cwbl, mae cael mwy o deithwyr o fantais iddyn nhw.

Meithrin cynghreiriau

Meddyliwch am bwy arall a allai fod â diddordeb yn eich ymgyrch, a phwy arall y gallai'r toriadau mewn gwasanaethau bysiau effeithio arnyn nhw. Er enghraifft, mae gan golegau a phrifysgolion fyfyrwyr sy'n teithio ar y bws; mae gan ysbytai a chanolfannau iechyd gleifion sy'n teithio ar y bws; mae gan grwpiau amgylcheddol ddiddordeb yn gyffredinol mewn materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus; bydd gyrwyr bysiau a'u hundebau'n pryderu ynglŷn â'u swyddi. Meddyliwch yn greadigol; mae pwy fydd yn eich cefnogi fwyaf yn dibynnu'n fawr ar eich cymuned leol.

Gall grwpiau gwahanol ddod â chyfraniadau gwerthfawr i ymgyrch. Er enghraifft, gall myfyrwyr helpu i gynnal arolygon, gall cefnogwyr o sefydliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd apelio'n gryf i'r cyhoedd ehangach, gall sefydliadau amgylcheddol fod â phobl sy'n arbenigo mewn ymgyrchu, a dylai gyrwyr ac undebau fod â gwybodaeth werthfawr am y diwydiant.

Gallai'r toriad effeithio ar siopau a busnesau lleol, yn rhai bach a mawr, neu fe allai gwasanaethau bysiau gwell fod o fantais iddyn nhw. Rydym ni'n gwybod bod siopau mawr yn cymorthdalu gwasanaethau bysiau mewn rhai rhannau o Gymru; os gwelwch chi botensial i wasanaeth newydd neu wasanaeth sy'n dilyn llwybr newydd fod o fudd i deithwyr hefyd, beth am awgrymu hyn i siop fawr neu i ddatblygwr tai, er enghraifft? Neu efallai y byddai gan siopau llai ddiddordeb mewn hybu'ch ymgyrch trwy arddangos posteri, taflenni neu ddeiseb.

Efallai fod mudiadau gwirfoddol lleol yn cynrychioli grwpiau penodol o bobl y gallai toriadau effeithio arnyn nhw, er enghraifft, pobl hŷn, pobl sydd â phlant ifanc, pobl sydd â nam ar eu golwg. Efallai y gallan nhw ddarparu tystiolaeth o effaith toriadau. Efallai fod gan ganolfannau Cyngor ar Bopeth ac asiantaethau cynghori eraill dystiolaeth o'r problemau y mae pobl yn eu hwynebu os oes angen iddyn nhw deithio i'r gwaith neu os na allan nhw fforddio car.

Mae'n hollbwysig siarad â phobl eraill sy'n teithio ar y bws; efallai y buasai holiadur yn ffordd dda o ddechrau'r sgwrs hon, ac mae'n ffordd ragorol i gasglu gwybodaeth a hanesion achosion i gefnogi'ch dadl.

Cyfleu eich neges

Efallai y bydd cyfarfod cyhoeddus yn ffordd dda i ddwyn sylw go iawn at eich ymgyrch; mae angen cytuno ar ddyddiad, dod o hyd i fan cyfarfod a gwahodd eich cynghreiriaid a'ch darpar gynghreiriaid, y rheiny sy'n defnyddio'r bws a thrigolion lleol, cynghorwyr lleol a'ch ACau.

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n anfon datganiad i'r wasg i'ch papurau newydd, eich radio a'ch teledu lleol; gall y cyfryngau hyn sicrhau bod eich ymgyrch yn dod i sylw pobl. Gall sylw o'r fath roi mwy o hwb i'ch ymgyrch. Ar ôl anfon datganiadau i'r wasg, ffoniwch y newyddiadurwyr a cheisio sefydlu perthynas â nhw; mae perthynas dda â newyddiadurwyr ac ymchwilwyr lleol yn gallu gwneud gwahaniaeth i'r sylw y byddan nhw'n ei roi i'ch ymgyrch.

Ceisiwch ddarganfod beth yw eu dyddiadau cau ar gyfer straeon gan y gall hyn fod yn arbennig o bwysig yn achos papurau a rhaglenni wythnosol. Os y gallwch, ceisiwch ddarganfod pa newyddiadurwyr sydd â diddordeb yn y pwnc. Cofiwch, wrth ryddhau datganiad i'r wasg neu roi cyfweliad ei bod hi, ar y cyfan, yn well canolbwyntio ar ryw dri phwynt allweddol yn hytrach na gwneud cyflwyniad hir a manwl. Mae'r cyfryngau'n hoffi stori dda, fel effaith toriad penodol ar bobl neu ystadegau sy'n bachu'r sylw. Maen nhw hefyd eisiau straeon sy'n gyfredol, felly sicrhewch eich bod chi'n cysylltu'r hyn rydych chi'n ei gyfleu ag un o'ch digwyddiadau chi'ch hun neu â phenderfyniad y mae'r cyngor lleol ar fin ei wneud.

Fel arall, fe allech chi gael stondin mewn lle amlwg, gyda deiseb neu lythyrau cefnogaeth i'w llofnodi. Mae'r Campaign for Better Transport yn gallu darparu rhai deunyddiau; gall sticeri a bathodynnau a chymhorthion gweladwy eraill roi synnwyr o bwrpas ac o gydweithio, a gall posteri mewn ffenestri siopau lleol helpu i symbylu neu galonogi pobl.

Peidiwch â cholli cyfle i fachu sylw'r cyfryngau. Os ydych chi'n mynd i gyfarfod y cyngor, er enghraifft, beth am gael protest â phlacardiau a chrysau-t yr ymgyrch? Helpwch newyddiadurwyr i gael cyfle da am ffotograff a dyfyniad, a dewch o hyd i rywun y mae toriadau'n effeithio'n uniongyrchol arno neu arni, i newyddiadurwyr siarad ag ef neu hi. Neu fe allech chi drefnu sbloet cyhoeddusrwydd, gan gerdded ar hyd rhan o'ch llwybr bysiau, er enghraifft, neu drefnu i nifer fawr

o ymgyrchwyr fynd ar y bws gyda'i gilydd, yn gwisgo crysau-t yr ymgyrch, yn dosbarthu taflenni ac yn siarad â theithwyr eraill. Mae llythyrau at olygydd eich papur newydd lleol hefyd yn gyfle delfrydol i roi gwybod i eraill am eich ymgyrch ac i gasglu mwy o gefnogaeth. Ym mhob un o'r achosion hyn, gwnewch yn siŵr eich bod, yn ogystal â dadlau yn erbyn toriadau sydd wedi'u gwneud, hefyd yn hybu pob agwedd bositif ar deithio ar y bws ac yn annog mwy o bobl i deithio fel hyn.

Dylanwadu ar y rheiny sy'n penderfynu

Manteisiwch ar bob cyfle i gyflwyno'ch dadleuon i'r rheiny sy'n penderfynu. Fe fydd gennych chi gynghorydd lleol ar gyfer y ward etholiadol rydych chi'n byw ynddo; ceisiwch ddarganfod pwy ydyw, gan y dylai fod yn gyfarwydd iawn â'ch ardal ac efallai y bydd ganddo neu ganddi ddiddordeb penodol yn eich ymgyrch. Ceisiwch ddarganfod pryd y mae'ch cyngor lleol yn cyfarfod a ph'un a allwch chi gael eitemau wedi'u cynnwys ar yr agenda ac a allwch chi fynychu.

Efallai y bydd cynghorwyr y gwrthbleidiau'n fwy tebygol o gydymdeimlo â chi a bod yn fwy parod i siarad yn erbyn Llywodraeth Cymru, ond fe ddylai pob cynghorydd ymddiddori mewn materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar bobl leol. Ceisiwch ddarganfod sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud yn eich cyngor, pa gynghorwyr sydd â diddordeb mewn trafnidiaeth a pha ddylanwad sydd ganddyn nhw. Mae'r berthynas rhwng cynghorwyr a swyddogion y cyngor (gweision sifil sy'n gweithio i'r cyngor) yn tueddu i fod yn wahanol ym mhob cyngor, felly da o beth yw cael syniad o sut mae pethau'n gweithredu yn eich cyngor chi. Efallai y buasai'n ddefnyddiol cysylltu ag eraill sydd wedi arwain ymgyrchoedd yn eich ardal chi, boed yn ymwneud â thrafnidiaeth ai peidio, gan ei bod hi'n bosibl bod ganddyn nhw ambell air i gall ynglŷn â threfniadau lleol. Gallwch chi gael gwybod pwy yw'ch cynghorydd lleol ar wefan eich cyngor, neu gallwch chi ffonio'ch cyngor. Mae gan wefan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sef http://www.wlga.gov.uk, wybodaeth ddefnyddiol sy'n esbonio rôl y 22 awdurdod unedol (awdurdod lleol) yng Nghymru yn ogystal â'r 735 cyngor tref a chymuned.

Os oes yna unrhyw ymarferion ymgynghori yn eich ardal, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ymateb ac yn annog eraill i wneud hynny hefyd. Mae Passenger Focus wedi ysgrifennu pecyn cymorth arfer gorau ar gyfer Awdurdodau Lleol sy'n bwriadu cynnal ymgynghoriad ar newidiadau i wasanaethau bysiau (gwelwch yr adran Adnoddau Pellach isod). Ynddo, maen nhw'n dwyn sylw at gostau a buddion proses ymgynghori effeithiol ac yn dwyn sylw at y ffyrdd y gellir cynnal ymgynghoriad da, gan arwain yn y pen draw at well canlyniadau i'r awdurdodau lleol ac i'r teithwyr fel ei gilydd. Gall ymgynghori da arwain at gasglu data mwy manwl gywir, yn enwedig ynglŷn ag effaith debygol newidiadau i wasanaethau, a gall helpu i nodi ffyrdd amgen i arbed arian ac, o bosibl, gwella'r rhwydwaith bysiau. Yn olaf, maen nhw'n awgrymu y gall ymgynghori helpu i nodi ffyrdd i ddelio ag effeithiau newidiadau i wasanaethau bysiau. Mae'r rhain i gyd yn bethau y gallwch chi, fel ymgyrchydd a rhywun sy'n defnyddio'r bws, helpu'ch awdurdod trafnidiaeth lleol â nhw, gan eich bod mewn sefyllfa dda i asesu effaith toriadau arfaethedig ac i gynnig awgrymiadau ynglŷn â dewisiadau amgen.

Mae hefyd yn hollbwysig bod eich awdurdod lleol wedi gweithredu'n gyfreithiol wrth benderfynu sut i newid gwasanaethau bysiau. Os oedd y cyngor eisoes wedi penderfynu ar y newidiadau cyn cynnal ymgynghoriad, neu os anwybyddodd y darganfyddiadau, mae'n werth chweil edrych yn agosach ar bethau. Os na chymerodd ei ddyletswydd o ddifrif i ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus briodol i ddiwallu anghenion cymunedau, mae'n bosibl y gellid herio'r penderfyniad yn gyfreithiol. Er mwyn cymharu'r hyn y dylai fod wedi'i wneud â'r hyn a wnaed mewn gwirionedd, fe fydd angen ichi ddod o hyd i'r holl bapurau sy'n ymwneud â phenderfyniad yr awdurdod trafnidiaeth lleol, a'u casglu at ei gilydd. Efallai fod y rhain ar wefan y cyngor neu efallai y bydd yn rhaid ichi ofyn i'r gyngor amdanyn nhw. I gael gwybod mwy, dilynwch y dolenni o http://www.bettertransport.org.uk/legal_advice

Mae deisebau'n gallu bod yn ffordd ddefnyddiol o ddangos pa mor ddwfn yw'r pryder yn lleol, naill ai mewn ymateb i broses ymgynghori neu fel ymarfer ymgyrchu. Gwnewch yn siŵr bod eich cais yn eglur ac, os yw'n ofynnol ymateb yn ysgrifenedig fel rhan o'r ymarfer ymgynghori, sicrhewch eich bod chi'n ei gyflwyno mewn pryd. Fe allech chi ddrafftio templed i eraill ei ddefnyddio neu argraffu cardiau post i bobl eu llofnodi a'u hanfon. Ceisiwch fod o gymorth ac yn adeiladol, a chyfeiriwch at Gynllun Trafnidiaeth Lleol eich awdurdod lleol, a fydd ar gael ar eu gwefan, neu gallwch chi ofyn iddyn nhw anfon copi atoch chi. Mae yna Bwyllgor Deisebau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru y mae dinasyddion Cymru'n cael ei ddefnyddio i sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ymwybodol o faterion sy'n effeithio arnyn nhw. Mae yna ganllawiau clir ar gael ar-lein ynglŷn â pha fathau o ddeisebau sy'n dderbyniol ac ynglŷn â sut i'w cyflwyno. Proses yw hon y gellir ei defnyddio ar gyfer meysydd sydd wedi'u datganoli yn unig, sy'n cynnwys trafnidiaeth. Mae angen

rhoi teitl neu destun i ddeiseb, a datganiad sy'n nodi'r camau y mae'r deisebwr eisiau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu cymryd. Unwaith y bydd y Pwyllgor wedi derbyn deiseb, fe fydd yn ystyried pa gamau i'w cymryd nesaf. Mae mwy o ganllawiau i'w gweld ar wefan y Cynulliad: http://www.assemblywales.org/cy/gethome/e-petitions/get-petitions-guidance-2.htm neu gallwch chi ffonio 029 2089 8998 neu anfon e-bost i petition@wales.gov.uk

Ysgrifennwch at eich ACau (Aelodau'r Cynulliad), neu ewch i'w gweld. Fe fydd gennych chi un AC etholaeth a phedwar AC rhanbarthol, felly fe fydd gennych chi groestoriad o wleidyddion o wahanol bleidiau i gysylltu â nhw. Gan ddibynnu ar yr amser sydd ar gael ichi, fe fyddai'n ddefnyddiol ymweld â chynifer ohonyn nhw â phosibl, neu byddwch yn fwy strategol ac ymweld â'r rheiny rydych chi'n meddwl fydd y rhai mwyaf defnyddiol. Mae'n debygol y bydd eich AC etholaeth yn fwy cyfarwydd â'r ardal leol. Mae'ch ACau rhanbarthol yn gyfrifol am ardal ehangach ac felly mae'n bosibl na fyddan nhw mor gyfarwydd â'r ardal leol. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod trafnidiaeth yn un o'u briffiau neu eu bod nhw'n gwasanaethu ar bwyllgor trafnidiaeth, neu eu bod nhw'n arbennig o gyfarwydd â'ch ardal chi. Mae ACau y gwrthbleidiau'n fwy tebygol o gydymdeimlo â chi a bod yn feirniadol o'r llywodraeth, ac efallai fod ACau y Blaid Lafur mewn gwell sefyllfa i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru. Efallai y buasai'n ddefnyddiol ymweld â'ch AC, mewn cymhorthfa neu drwy apwyntiad i gychwyn, ac yna gallwch chi ysgrifennu llythyr ar ôl y cyfarfod hwn, pan rydych chi'n gwybod ei farn neu ei barn ar y mater, ac rydych chi'n gallu atgyfnerthu'ch dadl. Gallwch chi gael gwybod pwy yw'ch ACau chi ar y wefan http://www.assemblywales.org/cy/memhome.htm neu ffoniwch 0845 010 5500.

Gallwch chi hefyd ysgrifennu at eich AS (Aelod Seneddol) neu ei (g)weld mewn cymhorthfa; yn achos trafnidiaeth, nid yw'n debygol y bydd hyn o fawr o werth (gan ddibynnu ar bwy yw'ch AS a beth yw ei gyfrifoldebau/ei chyfrifoldebau) gan fod trafnidiaeth yn faes sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, ond bydd yn helpu i roi lle mwy amlwg i'r mater yn fwy eang â'r rheiny yn San Steffan ac fe allen nhw godi pryderon eu hunain yn uniongyrchol â gweinidogion Cymru a chynghorau lleol.

Pledio'ch achos – dadleuon allweddol

Mae yna dair prif ddadl y gallwch chi eu defnyddio i gefnogi'ch achos wrth ichi drafod pethau â'ch AC neu â chynrychiolydd gwleidyddol arall:

Yr Economi

Mae toriadau i wasanaethau bysiau'n rhoi adferiad economaidd yn y fantol ac yn ychwanegu at lefelau diweithdra:

- Mae yna dystiolaeth gref bod yna lawer o geiswyr gwaith sy'n gorfod gwrthod swyddi oherwydd bod diffyg bysiau neu oherwydd eu bod nhw'n costio gormod.

- Mae angen gwasanaethau bysiau ar bobl ifanc i allu manteisio ar addysg a chyfleoedd swyddi.
- Mae traean o geiswyr gwaith yn dweud mai opsiynau trafnidiaeth gwael yw'r rhwystr mwyaf rhag dod o hyd i waith.
- Gall toriadau i wasanaethau min nos neu benwythnos, neu wasanaethau sy'n mynd i ardaloedd busnes y tu allan i'r dref, fod yn arbennig o niweidiol gan fod yna lawer o swyddi yn y sectorau manwerthu a gwasanaethu nad ydyn nhw'n dilyn patrwm naw-tan-bump.
- Mae angen cwsmeriaid ar fusnesau lleol, ac mae angen trafnidiaeth ar gwsmeriaid i gyrraedd siopau a chaffis a gwasanaethau eraill ar y stryd fawr.
- Bydd y strydoedd mawr ledled y wlad yn dioddef oherwydd diffyg bysiau, gan arwain at fusnesau'n mynd i'r wal a mwy fyth o ddiweithdra.
- Mae toriadau i wasanaethau bysiau'n debygol o arwain at bobl yn colli swyddi yn y diwydiant bysiau ei hun, a'r rheiny sy'n ei wasanaethu.
- Mae gan Gymru botensial anferthol ar gyfer twristiaeth; mae mwy a mwy o ymwelwyr yn dod yma o dramor, ac fe ddylen nhw gael opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy, saith diwrnod yr wythnos.

Allgáu Cymdeithasol

Mae'n debygol y bydd toriadau i wasanaethau bysiau'n arwain at fwy o allgáu cymdeithasol ac iechyd gwaeth:

- Mae toriadau i wasanaethau bysiau'n effeithio'n fwy ar y tlawd, pobl hŷn, yr ifanc a'r rheiny sydd fwyaf agored i newid nag ar unrhyw grwpiau eraill yn y gymdeithas.
- Gall toriadau i wasanaethau bysiau olygu y bydd pobl yn colli'r unig ffordd sydd ganddyn nhw o deithio'n annibynnol.
- Nid oes car gan chwarter yr holl aelwydydd yng Nghymru; po dlotaf yr ydych chi, lleiaf tebygol oll ydy hi bod gennych chi gar.
- Mae pobl hŷn a phobl anabl yn fwy tebygol o ddefnyddio bysiau gan ei bod hi'n llai tebygol bod ganddyn nhw gar i'w ddefnyddio ac mae yna lawer o bobl, fel y rheiny sydd â nam ar eu golwg, nad ydyn nhw'n gallu defnyddio car.
- Mae menywod yn llai tebygol o yrru na dynion ac felly mae'n fwy tebygol y bydd toriadau i wasanaethau bysiau'n effeithio'n niweidiol arnyn nhw.
- Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig eisoes wedi'u hymyleiddio a bydd toriadau i wasanaethau'n eu gwneud nhw'n fwy ynysig fyth ac yn achosi anawsterau i lawer.
- Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol i lawer o bobl allu manteisio ar ofal iechyd.
- Mae manteision mwy o ymarfer corff i iechyd wedi'u dogfennu'n dda, ac felly hefyd pwysigrwydd symud i ffwrdd o ddefnyddio'r car ac, yn lle, defnyddio ffurfiau eraill ar drafnidiaeth sy'n hybu neu'n ymgorffori gweithgarwch corfforol fel cerdded.
- Fe gomisiynodd Passenger Focus ymchwil mewn pedwar awdurdod lleol yn Lloegr yn 2012, yn sgil yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yno a arweiniodd at dorri cyllid bysiau ledled y wlad. Un o ddarganfyddiadau eu hymchwil oedd bod yr effeithiau ar deithwyr yn amrywiol ond roedd gwaethygu eu hansawdd bywyd yn gyffredin i'r mwyafrif.

Yr Amgylchedd

Mae toriadau i wasanaethau bysiau'n golygu y gellid gwneud mwy o niwed i'r amgylchedd:

- Gellir disgwyl i doriadau i wasanaethau bysiau arwain at fwy o siwrneiau mewn car ac felly at fwy o allyriadau carbon.
- Mae cymorth ar gyfer gwasanaethau bysiau'n un faes lle gall Llywodraeth Cymru chwarae rôl uniongyrchol mewn lleihau allyriadau carbon a chyflawni eu hymrwymiad i fynd i'r afael â'r pethau sy'n achosi newid yn yr hinsawdd a'r canlyniadau. Mae symud i ffwrdd i ffurfiau mwy cynaliadwy ar drafnidiaeth yn gydran hanfodol o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ac mae bysiau'n rhan hanfodol o rwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy.
- Mae cynnydd mewn defnyddio'r car yn arwain at fwy o lygredd awyr lleol, sŵn, tagfeydd a ffyrdd mwy peryglus i bawb sy'n eu defnyddio ac i gerddwyr, ac at amgylchedd casach yn gyffredinol i unrhyw un nad ydyw mewn car.

Sut gall Campaign for Better Transport helpu?

Ar ein gwefan, fe welwch chi gyngor ymarferol ar sut i redeg grŵp ymgyrchu a sut i baratoi adnoddau. Gallwch chi gysylltu â ni i gael cyngor, er enghraifft, os oes angen help arnoch chi ag ysgrifennu datganiad i'r wasg neu ysgrifennu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cysylltwch â ni trwy'r wefan www.bettertransport.org.uk neu ffoniwch ni ar 020 7566 6480.

Os hoffech chi i ni restru grŵp newydd yn ein cyfeiriadur, rhowch wybod i ni trwy'r wefan. Gallwch chi danysgrifio i'r e-fwletin i'n grwpiau lleol, sy'n llawn dop o wybodaeth am ymgyrchu, trwy anfon e-bost atom ni yn communications@bettertransport.org.uk

Gallwch chi gadw mewn cysylltiad â'n hymgyrchoedd bysiau trwy ein blog bysiau http://www.bettertransport.org.uk/campaigns/public_transport/buses/blog

Gallwn ni hefyd eich helpu chi i ddod o hyd i ddeunyddiau ymchwil (yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u rhestru isod) i'ch helpu i bledio'ch achos dros werth cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bysiau.

Mae hwn yn fater mor bwysig fel ein bod ni'n eich annog i roi pin ar bapur, rhoi bys ar fysellfwrdd a mynd allan ar eich bysiau lleol er mwyn eu hachub.

Rydym ni'n croesawu adborth ar y canllaw byr hwn ar ymgyrchu a rhowch wybod i ni sut hwyl rydych chi'n ei chael ar eich ymgyrch chi. Pob lwc.

Ffynonellau cyngor eraill

Sefydliad yw Bus Users UK Cymru sy'n bodoli i gryfhau llais defnyddwyr bysiau yn y drafodaeth ar faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus, i gynyddu dylanwad defnyddwyr bysiau ar benderfyniadau lleol a chenedlaethol sy'n effeithio ar wasanaethau bysiau, ac i ddatblygu cysylltiadau da rhwng cwmnïau bysiau a'u teithwyr. Maen nhw'n gwneud hyn mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol ardaloedd, trwy helpu i sefydlu grwpiau lleol, rhedeg cymorthfeydd bysiau, trefnu cyfarfodydd â chwmnïau bysiau ac awdurdodau lleol, helpu â phroblemau lleol a hybu arfer da yn y diwydiant bysiau, ac mae ganddyn nhw gynrychiolaeth ar y Corff Apeliadau Bysiau. Fe allen nhw fod yn lle da i ddechrau os oes gennych chi broblemau â bysiau lleol yr hoffech chi eu trafod â thrydydd parti cyn cymryd camau pellach. Gallwch chi gysylltu â nhw ar 029 2022 1370 neu drwy e-bost yn wales@bususers.org.

Adnoddau pellach

Mae "Bus service reviews: consulting on changes to local services – a best practice toolkit" gan Passenger Focus yn ffynhonnell cyngor ddefnyddiol ar sut dylai cynghorau ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau http://www.passengerfocus.org.uk/research/publications/bus-service-reviews-consulting-on-changes-to-local-services-a-best-practice-toolkit

Mae'r Weithrediaeth Trafnidiaeth Teithwyr yn rhedeg gwefan ddefnyddiol ar y dystiolaeth ar gyfer polisi trafnidiaeth da yn www.transportworks.org.

Mae gan Greener Journeys, sef sefydliad sy'n hybu teithio ar y bws, hefyd ffeithlen ddefnyddiol sy'n rhoi crynodeb o'r achos busnes dros fysiau – http://www.greenerjourneys.com/2012/12/a5-summary-of-killer-stats-on-bus-business-case/.

Mae Campaign for Better Transport wedi cynhyrchu Buses Matter, sy'n manylu ar werth bysiau i lawer o grwpiau yn y gymdeithas – http://www.bettertransport.org.uk/system/files/11.02.23.buses-matter.pdf.

Atodiad: y consortia trafnidiaeth rhanbarthol

TraCC
Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 3UE
01970 633900
enquiries@tracc.gov.uk

Taith
Swyddfa Taith,
Gorsaf Rheilffordd y Fflint, Sgwâr y Farchnad,
Y Fflint CH6 5NW
01352 704561
enquiries@taith.gov.uk

Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA)
Canolfan Maendy, Ffordd y Goron,
Caerdydd CF10 3AJ
029 2078 8569
neu e-bost trwy'r wefan www.sewta.gov.uk

Swyddfa SWWITCH
d/o Swyddfeydd Penllergaer, Dinas a Sir Abertawe,
Penllergaer, Abertawe SA4 9GJ
01792 637760 neu 637761

Campaign for Better Transport

Campaign for Better Transport yw awdurdod mwyaf blaenllaw y DU ar drafnidiaeth gynaliadwy. Rydym ni'n hyrwyddo atebion trafnidiaeth sy'n gwella bywydau pobl ac yn lleihau niwed i'r amgylchedd. Mae ein hymgyrchoedd yn hyrwyddo polisïau arloesol, ymarferol ar lefelau lleol a chenedlaethol. Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Campaign for Better Transport yn elusen gofrestredig (1101929).

Y llun ar y clawr: Stuart Herbert ar Flickr

Gweledigaeth Campaign for Better Transport yw gwlad lle mae gan gymunedau drafnidiaeth fforddiadwy sy'n gwella ansawdd bywyd ac yn gwarchod yr amgylchedd. Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth mae angen newidiadau sylweddol i bolisi trafnidiaeth y DU, a'n nod yw cyflawni hyn trwy ddarparu atebion ymarferol yr ymchwiliwyd yn drylwyr iddyn nhw ac sy'n ennyn cefnogaeth o du'r rheiny sy'n penderfynu a'r cyhoedd fel ei gilydd.

info@bettertransport.org.uk
Ffôn: 020 7566 6480
Ffacs: 020 7566 6493
www.bettertransport.org.uk
www.facebook.com/bettertransport
www.twitter.com/fairfaresnow
www.twitter.com/saveourbuses_uk

16 Waterside, 44-48 Wharf Road, London N1 7UX
Elusen Gofrestredig 1101929. Cwmni cyfyngedig trwy warant, wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr: 4943428